SUT I WNEUD CWYN

GADEWCH I NI WYBOD!

Mae'r coleg wedi ymrwymo i roi gwasanaeth ardderchog i chi ac mae'n croesawu adborth er mwyn parhau i helpu i wella eich profiad yn y coleg.

Sut i Wneud Cwyn

Os oes gennych chi gŵyn gall eich tiwtor personol eich helpu i ddatrys y broblem a dylech ei thrafod ag ef neu hi.

Os nad yw hynny'n bosibl neu os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad gallwch gyflwyno'ch cwyn trwy'r Uned Ansawdd i'r Is-bennaeth Gwasanaethau Academaidd trwy un o'r dulliau canlynol:

- yn ysgrifenedig naill ai drwy lythyr (wedi'i gyfeirio at sylw'r Uned Ansawdd a'i roi i staff y dderbynfa) neu drwy'r e-bost (Beverley.hunt@coleggwyrabertawe.ac.uk)
- yn ysgrifenedig drwy ddefnyddio'r ffurflen Cwynion, Canmoliaeth ac Awgrymiadau (ar gael ym mhob derbynfa)
- ar lafar mewn person neu drwy ffonio os oes angen cymorth arnoch i wneud cwyn ysgrifenedig:

  01792 284000 - Tycoch
  01792 890700 - Gorseinon
  01792 284021 – Llwyn y Bryn
  01792 284400 – Llys Jiwbilî
  01792 284011 – Plas Sgeti

Os oes angen cymorth arnoch i wneud cwyn gallwch ddod â rhywun gyda chi, e.e. tiwtor, asiantaeth allanol, cyfieithydd ac ati.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr Is-bennaeth Gwasanaethau Academaidd yn cyfeirio'ch cwyn i'w hymchwilio - fel rheol bydd uwch aelod o staff yn gwneud hyn.

Os yw grŵp o ddysgwyr wedi cwyno gall y sawl sy'n ei hymchwilio gwrdd â phob un o'r dysgwyr yn y grŵp i sicrhau bod pob barn yn cael ei chynrychioli'n deg.

Cewch ymateb ysgrifenedig i'r gŵyn o fewn tair wythnos a chewch wybod hefyd sut i apelio os ydych yn anghytuno â'r canlyniad.

Mae'r polisi cwyno llawn gan gynnwys gwybodaeth am apeliadau i'w weld ar Moodle (yn y Llawlyfr Myfyrwyr) ac ar wefan y coleg.